

Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd



Trefniadau ymarferol:

Down ynghyd i wrando ar Air Duw yn ogystal â gweddïo a byddai'n dda felly bod Beibl yn agored ar y bwrdd yn y blaen.

Mae'r oedfa wedi ei rhannu yn ddarnau, ond byddai'n dda eich bod chi'n rhannu rhai o'r darnau hir eto: dyma gyfle i gael cymaint â phosib o ferched i gyfrannu, gan gofio annog pawb sy'n cymryd rhan i godi eu lleisiau, a siarad yn ddigon araf, a chlr, er mwyn i bawb glywed. Hefyd, os yw'n bosibl, mae'n well osgoi rhoi darnau at ei gilydd fel bod un darn hir gan rywun – i fod yn deg â'r sawl sy'n cyflwyno a phawb sy'n gwranddo!

Fel yn 2020, yn sgil Covid, bydd angen i'r trefnwyr lleol benderfynu ar sut i gynnal oedfa Dydd Gweddi, un ai yn lleol, ar y cyd, neu ar-lein, gan gymryd sylw o'r canllawiau ar y pryd.

Mae rhannau'r llywydd wedi eu nodi mewn print trwm. Does dim rhaid i'r un un ddarllen y darnau hyn i gyd ond mae'n gymorth i glymu'r cyfan at ei gilydd.

Bydd hi'n fater i'r trefnwyr lleol benderfynu pa fersiwn o'r darlleniad i'w ddarllen yn yr oedfa leol.

Bydd angen i'r trefnwyr lleol benderfynu hefyd beth i'w wneud am y casgliad. Mae'r casgliad yn rhan ganolog o'r oedfa, ac mae dau bosib wedi cael eu cynnig: un ai casgliad yn y ffordd arferol; neu neilltuo'r casgliad ar yr adeg yna o'r oedfa, a'i godi

Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd 1 Tachwedd 2021 – Byw yn ddewr

a'i roi ar y plât wrth ymadael ar ddiwedd yr oedfa. Cofiwch roi cyfle i rai nad ydynt yn bresennol yn yr oedfa i gyfrannu.

Casgliad: Fe dderbynnir eich cyfraniadau'n ddiolchgar gan ein trysorydd:

Mrs Hazel Williams Jones,
26 Erw Goch,
RHUTHUN
LL15 1RR

Os gwelwch yn dda, gwnewch eich sieciau yn daladwy i: Mudiad y Chwiorydd

Dechrau'r Oedfa

Llywydd: Croeso i chi heddiw i oedfa weddi Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd, pan gawn ni gyfle i ymuno â chwiorydd ar draws y byd yn eglwysi'r Bedyddwyr, i weddio am y pethau sydd ar galon ein chwiorydd ni eleni, a thrwy y casgliad, i gyfrannu at y pethau hynny.

Karen Wilson o Awstralia yw llywydd rhyngwladol am y cyfnod hwn, ac mae ganddi ddyhead am gael gweld merched yn arfer cyflawnder eu gweinidogaeth, gan annog ei gilydd, a chyfrannu ochr yn ochr â dynion.

Mae ganddi weledigaeth o ferched yn sefyll i fyny yn dal, gyda'i gilydd, i dderbyn yr Ysbyrd Glân, ac i amddiffyn pobl eu cymunedau.

Mae'n credu, fel bu'r Arglwydd yn annog Josua, 'Bydd yn gryf a dewr' mae e'n annog merched heddiw i fod yn gryf ac yn ddewr, a 'Byw yn ddewr' yw thema'r Dydd Gweddi eleni.

Byddwn ni'n troi cyn bo hir at astudiaeth feiblaidd Karen, ond gadewch inni ganu gyntaf:

1. Emyn 1: CFF 126 Molwn enw'r Arglwydd

2. Gweddi agoriadol:

Gweddïwn:

Ein Tad, rydym yn dod ynghyd heddiw, chwiorydd Bedyddwyr y byd, i weddio arnat ti: i agor ein calonnau i ti, i rannu ein gofidiau, i wrando am dy lais, i'th adnabod yn well, i gael ein newid gennynt. Bendithia ni, yr awr hon, drwy dy ras, am ein bod yn gofyn yn enw ac yn haeddiant Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Dydd Gweddï Chwiorydd Bedyddwyr y Byd
1 Tachwedd 2021 – Byw yn ddewr

| | |
|--|---|
| <p>3. Darlleniad: Effesiaid 6: 10 – 19 Daw'r darlleniad heddiw o Effesiaid, a'r awdur yn annog y rhai sy'n clywed i fod yn ddewr, nid yn eu nerth eu hunain ond gan bwysu ar roddion Duw.</p> | |
| Beibl Cymraeg Newydd | Beibl.net |
| <p><u>Y Frwydr yn erbyn Drygioni</u> Yn olaf, ymgryfhewch yn yr Arglwydd ac yn nerth ei allu ef. Gwisgwch amdanoch holl arfogaeth Duw, er mwyn ichwi fedru sefyll yn gadarn yn erbyn cynllwynion y diafol. Nid â meidrolion yr ydym yn yr afael, ond â thywysogaethau ac awdurdodau, â llywodraethwyr tywyllwch y byd hwn, â phwerau ysbrydol drygionus yn y nefolion leoedd. Gan hynny, ymarfogwch â holl arfogaeth Duw, er mwyn ichwi fedru gwrthsefyll yn y dydd drwg, ac wedi cyflawni pob peth, sefyll yn gadarn. Safwch, ynteu, â gwirionedd yn wregys am eich canol, a chyfiawnder yn arfwisg ar eich dwyfron, a pharodrydd i gyhoeddi Efengyl tangnefedd yn esgidiau am eich traed. Heblaw hyn oll, ymarfogwch â tharian ffydd; â hon byddwch yn gallu diffodd holl saethau tanllyd yr Un drwg. Derbyniwch helm iachawdwriaeth a chleddyf yr Ysbryd, sef gair Duw. Ymrowch i weddi ac ymbil, gan weddio bob amser yn yr Ysbryd. I'r diben hwn, byddwch yn effro, gyda dyfalbarhad ym mhob math o ymbil dros y saint i gyd, a gweddiwch dros of finnau y bydd i Dduw roi i mi ymadrodd, ac agor fy ngenau, i hysbysu'n eofn ddirgelwch yr Efengyl.</p> | <p><u>Arfwisg gan Dduw</u> Dyma'r peth olaf sydd i'w ddweud: Byddwch yn gryf, a chael eich nerth gan yr Arglwydd a'r pŵer aruthrol sydd ganddo fe. Mae Duw wedi paratoi arfwisg i chi ei gwisgo yn y frwydr. Byddwch chi'n gallu gwneud safiad yn erbyn triciau slei y diafol. Dŷn ni ddim yn ymladd yn erbyn pobl. Mae'n brwydr ni yn erbyn y bodau ysbrydol sy'n llywodraethu, sef yr awdurdodau a'r pwerau tywyll sy'n rheoli'r byd yma; y fyddin ysbrydol ddrwg yn y byd nefol. Felly gwisgwch yr arfwisg mae Duw'n ei rhoi i chi, er mwyn i chi ddal eich tir pan fydd pethau'n ddrwg, a dal i sefyll ar ddiwedd y frwydr. Safwch gyda gwirionedd wedi'i rwymo fel belt am eich canol, cyfiawnder Duw yn llurig amdanoch, a'r brwdfrydedd i rannu'r newyddion da am heddwch gyda Duw yn esgidiau ar eich traed. Daliwch eich gafael yn nharian ffydd bob amser – byddwch yn gallu diffodd saethau tanllyd yr un drwg gyda hi. Derbyniwch achubiaeth yn helmed ar eich pen, a newyddion da Duw, sef cleddyf yr Ysbryd, yn arf yn eich llaw. A beth bynnag ddaw, gweddiwch bob amser fel mae'r Ysbryd yn arwain. Cadwch yn effro, a dal ati i weddio'n daer dros bobl Dduw i gyd. A gweddiwch drosto i hefyd. Gweddiwch y bydd Duw'n rhoi'r geiriau iawn i mi bob tro bydda i'n agor fy ngheg, er mwyn i mi rannu dirgelwch y newyddion da yn gwbl ddi-ofn.</p> |

Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd 1 Tachwedd 2021 – Byw yn ddewr

Astudiaeth feiblaidd:

4 Mae'r astudiaeth eleni, o law Karen Wilson, llywydd rhyngwladol y Chwiorydd, yn seiliedig ar adnod yn llyfr Hebreaid, pennod 13, adnod 6:

Beibl.net: Felly gallwn ni ddweud yn hyderus, "Yr Arglwydd ydy'r un sy'n fy helpu i; fydd gen i ddim ofn. Beth all pobl ei wneud i mi?"

BCN: Am hynny, dywedwn ninnau'n hyderus: "Yr Arglwydd yw fy nghynorthwywr, ac nid ofnaf; beth a wna pobl i mi?"

Mae'r geiriau hyn yn ddewr ac yn feiddgar. Maen nhw'n datgan dewrder sy' dim ond yn dod oherwydd bod yr Arglwydd wrth ein hochr. Nid mater o beidio ag ofni ydy dewrder, ond bwrw ymlaen er gwaetha'r ofn.

Fe gafodd y geiriau hyn eu hysgrifennu ar gyfer cenhedlaeth o Gristnogion roedd digon o reswm ganddyn nhw i ofni. Cofiw'n am yr apostol Paul, oedd wedi dioddef lawer ar law gwrthwynebwyr yr Arglwydd: ym mhennod 11 o'i ail lythyr at y Corinthiaid, mae e'n sôn am fod wedi gweithio'n galed iawn, am fod yn y carchar, ac am gael ei guro dro ar ôl tro, nes ei fod bron â marw yn aml. Mae'n sôn am gael ei chwipio bump o weithiau gan Iddewon, a'i guro â ffyn dair gwaith gan y Rhufeiniaid. Unwaith cafodd cerrig eu taflu ato i geisio ei ladd. Roedd e wedi cael ei longddryllio deirgwaith, ac mewn perygl mewn afonydd, mewn dinasoedd, wrth deithio drwy dir anial ac ar y môr. Collodd lawer o gwsg a phrofi newyn a syched, bod yn oer a heb ddigon o ddillad i gadw'n gynnes. A dioddefodd rai o'r pethau hyn gan bobl oedd yn cymryd arnyn nhw eu bod yn Gristnogion.

Roedd e'n gwybod on'd oedd beth oedd bywyd heriol! Roedd ganddo ddigon o reswm i ofni, ond bu'n dal ymlaen yn ddewr. Sut mae hynny hyd yn oed yn bosibl?

Rwy'n credu (medd Karen) y rheswm roedd Paul yn gallu ymddiried mor hyderus yn yr Arglwydd oedd oherwydd bod y geiriau hyn yn atsain yn ei galon: "Wna i byth eich siomi chi, na throi fy nghefn arnoch chi." (Hebr. 13:5)

Ar adeg pan oedd e yn y carchar, bu'n ysgrifennu at eglwys newydd yn Philipi gan ddweud:

"Byddwch yn llawen bob amser am eich bod yn perthyn i'r Arglwydd. Dwi'n dweud eto: Byddwch yn llawen! Gadewch i bawb weld eich bod yn bobl garedig. Mae'r Arglwydd yn dod yn fuan. Peidiwch gadael i ddim byd eich poeni chi. Gweddiwch, a gofyn i Dduw am bopeth sydd arnoch ei angen, a byddwch yn ddiolchgar bob amser. Byddwch chi'n profi'r heddwch perffaith mae Duw'n ei roi – y daioni sydd tu hwnt i bob dychymyg – yn gwarchod eich calonnau a'ch meddyliau wrth i chi ddilyn y Meseia Iesu." (Philp. 4: 4-7)

Dydd Gweddï Chwiorydd Bedyddwyr y Byd 1 Tachwedd 2021 – Byw yn ddewr

Mae'r adnodau hyn yn cynnig pedwar peth i'w cofio fydd yn ein galluogi i fyw yn ddewr:

- i. Cofiwch fod yn llawen. Mae angen i ni foli'r Arglwydd beth bynnag fyddo'r amgylchiadau. Mae kannwyll fechan yn gallu taflu llawer o oleuni, ac mae gair bach o fawl yn gallu newid calon drom. Molwch Dduw am ei gysur, am ei bresenoldeb, am ei arweiniad, am ei nerth. Molwch ef am ei sancteiddrwydd, ei drugaredd, ei gariad, a'i ras. Molwch Dduw yn ddi-baid am bwy yw e – nid beth mae'n gallu ei wneud ond am bwy yw e i bob un ohonom.
- ii. Cofiwch ei fod gyda chi. Dydyn ni byth wrth ein hunain bach. Gallwn ni fynd i lefydd tywylla'r ddaear – mae Duw yno. Gallwn ni fynd i'r mynyddoedd uchaf – mae Duw yno. Gallwn gerdded y dyffrynnoedd dyfnaf – mae Duw yno. Nid oes un man lle na all Ysbryd y Duw byw ein cyrraedd, nid oes un man lle na all Ysbryd y Duw byw fynd yno gyda ni, yn gwmni ac yn nerth. Mae e yno, ac mae'n addo peidio byth a'n gadael ni. (Mth. 28: 20) Rwy'n cofio pan oeddwn i yn India rywdro, roeddwn i'n cerdded drwy ardal rhai o'r puteindai gwaetha, a holi fy hun, a allai cariad Duw fod yn bresennol mewn lle mor dywyll. Wrth i mi oedi a siarad gyda'r gwragedd oedd yn aros eu tro am eu cwsmeriaid, wrth imi ddal eu dwylo a rhannu eu te chai... sylweddolais i fod Duw yno, yn wir.
- iii. Cofiwch roi diolch. Pan fyddwn ni'n gweddïo dylen ni ddechrau gyda diolch. Duw yw rhoddwr pob rhodd dda (Iago 1:17) ac mae'n hoffi rhoi rhoddion da i'w blant. Diolchwch iddo am bob peth. Diolchwch iddo am eich iechyd, am ei ddarpariaeth, am iachawdwriaeth, am fwyd ar y bwrdd... mae'r rhestr yn ddiddiwedd. Ymunwch gyda'r Salmydd pan ddywed: "Dwi am ganmol yr Arglwydd bob amser; a'i foli'n ddi-baid! Dwi am frolio'r Arglwydd. Bydd y rhai sy'n cael eu cam-drin yn clywed ac yn llawenhau!" (Salm 34: 1-2) Pan fo moliant yn ein genau, bydd dewrder yn cynyddu yn ein calonau.
- iv. Cofiwch mai heddwch sy'n gwarchod eich calonau. Os byddwn ni'n byw fel hyn, bydd heddwch Duw yn teyrnasu. Er bod trafferthion yn sicr o ddod (fel dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion) (In. 16:33) nid yw'r amgylchiadau trafferthus hyn yn gallu rhwystro ein heddwch. Weithiau fe fydd Duw yn tawelu'r storm, ond ar adeg arall fe fydd yn caniatáu'r storm, a'n tawelu ni, ei blant. Cawn ein hannog yn Diarhebion, "Gwarchod dy galon o flaen pob dim arall, achos dyna ffynhonnell dy fywyd." (Diar.4:23) Gadewch i heddwch Duw ddod arnoch, gadewch i heddwch Duw ymgartrefu yn eich calon, anadlwch yn ddwfn o'i heddwch perffaith ef sydd y tu hwnt i bob dychymyg (Philp. 4:7), gan wynebu felly pob her newydd yn ddewr.

Mae byw yn ddewr yn gofyn inni fod yn gryf yn yr Arglwydd, a chael nerth gan yr Arglwydd, a'r pŵer aruthrol sydd ganddo fe. Mae byw yn ddewr yn gofyn inni wneud safiad cadarn, i wisgo'n addas ar gyfer y brwydrau a wynebwn, i fod yn weddigar ac yn llawn ffydd, ac i rannu â byd anghenus ddirgelion newyddion da yr efengyl yn gwbl ddi-ofn.(Eff. 6:10-19)

Dydd Gweddï Chwiorydd Bedyddwyr y Byd 1 Tachwedd 2021 – Byw yn ddewr

Bydd angen i ni hefyd ddweud, gyda'r rhai aeth o'n blaen, "Yr Arglwydd yw fy nghynorthwywr, ac nid ofnaf; beth a wna pobl i mi?" 5. Gweddïwn nawr am ddewrder:

O Dduw, rho imi fod yn ddewr.

Rho imi fod yn ddewr i godi llais, i sefyll i fyny dros beth sy'n iawn, i sefyll i fyny gyda'r rhai sy'n fregus; i sefyll i fyny dros rai sy angen fy nghefnogaeth, a minnau hefyd angen eu cefnogaeth nhw.

Gwna fi'n ddynes ddewr, yng ngrym dy Ysbryd Glân, i wneud beth rwy'ti am i mi ei wneud, i fod pwy rwy'ti am i mi fod.

Rho imi fod yn ddewr i gyffesu fy niffygion lle rwy'n wan, ac yn ddewr i ofyn am faddeuant wedi i mi droseddu. Rho imi fod yn ddewr i'th ganlyn di hyd yn oed pan fydd lleisiau o'm cwmpas ac oddi mewn i mi yn dweud nad wy'n ddigonol, neu nad oes modd i mi ei wneud.

Mae arna i angen dy ddewrder i newid ac i dyfu. Mae arna i angen dy ddewrder i ffynnu. Oherwydd dim ond mewn ffyniant bydd y byd yn dy weld di: dy gariad, dy ras, dy nerth, dy bŵer, dy ogoniant.

A dwi am i hynny ddigwydd, Arglwydd Iesu. Gwna hynny ynof fi; gwna hynny drwof fi. Am fod y byd dy angen di.

Yn enw Iesu rwy'n gweddïo. Amen.

6. Emyn 2: CFf 597 O Ysbryd byw, dylifa drwom

Llywydd: Un o nodweddion yr oedfaon gweddï byd-eang hyn yw'r cyfle inni glywed am brofiadau merched mewn gwledydd diarth. Mae'r storïau am ffydd yn wahanol, gwahanol iawn rhai ohonyn nhw, i'n storïau ni. Ac eto, o glywed y storïau rydym ni'n gallu cydymdeimlo â'r profiadau mae ein chwiorydd yn eu profi, a gan gofio ein thema 'Byddwch yn ddewr', gallwn ni lawenhau eu bod wedi cael nerth i fod yn ddewr yn eu hamgylchiadau. Cawn wrando nawr ar brofiad Sonia o Pacistan.

7. Sonia o Pacistan.

Mae Sonia yn fam sengl, i bedwar o blant, ac er ei bod hi a'i theulu yn dweud eu bod yn Gristnogion, doedden nhw byth yn mynd i'r cwrdd. Cyn Covid, roedd Sonia yn gweithio fel cogydd ar gyfer teulu arall. Dyma'r unig incwm oedd ganddi er mwyn bwydo ei phlant, ond ym mis Ebrill y llynedd, pan oedd Covid yn lledaenu'n gyflym, collodd hi ei gwaith. Collodd hi hefyd bob gobaith, ac roedd ei meddwl yn crwydro i lefydd tywyll iawn – ond mae cynlluniau Duw yn rhagori ar ein rhai ni!

Bu tîm o wragedd Bedyddwyr y rhanbarth yn ymweld â grwpiau bach o bobl yn yr ardal, a Sonia yn un o'r rhai ddaeth i gwrdd â nhw. Gofynnodd hi am help ac am weddi drosti. Derbyniodd hi wahoddiad i ymuno â grŵp bach, a derbyn y croeso, ac

Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd 1 Tachwedd 2021 – Byw yn ddewr

mi glywodd hi air Duw. Rhoddon nhw fwyd iddi, ac addo ei helpu. Penderfynon nhw fod modd rhoi lle i'w phant yn yr ysgol oedd yn rhan o weinidogaeth yn y cylch. Yn ddiweddarach daeth Sonia i'r ganolfan lle mae llawer o wragedd difreintiedig yn dysgu gwnio er mwyn ennill sgiliau ac yna ennill arian. Penderfynodd Sonia ddysgu pwytho, gan ymroi ddydd a nos.

Erbyn hyn, mae hi'n wniadwraig dda ac mae'n ennill digon i fwydo'i phlant. Mae hi'n helpu gwagedd eraill yn y dosbarth i ddysgu pwytho a brodio. Mae'n aelod cyson o'r grŵp bach, ac mae hi'n rhannu ei thystiolaeth. Bob dydd Sul mae hi'n gofalu am blant yr Ysgol Sul, ac mae hi'n barod i gael ei bedyddio yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae Duw yn dda ac mi wnaeth waith rhyfeddol ym mywyd Sonia. Mae hi'n esiampl dda i famau senogl eraill, o ran ei dewrder, a'i gobaith. Mae llawer o wragedd fel Sonia mae angen gofalu amdany'n nhw.

Mae stori Sonia yn dod gyda chais benodol inni weddio dros y gwaith, felly gadewch inni weddio dros y merched sy'n offerynnau yn llaw Duw yn y gwaith hwn:

Gweddiwn: O Dduw ein Tad, diolchwn i ti am drugaredd a chydymdeimlad ymhlith gwagedd anghenus Pacistan. Rho lwyddiant i'th waith yno fel bod mwy eto yn dod i adnabod Iesu, ac annog eraill i garu ac i gael eu caru. Gweddiwn y byddi'n galw mwy o weithwyr at y gwaith, ac y bydd y gweithwyr yn sefyll yn ddewr i weithredu yn dy enw, er mwyn bendithio gwagedd a phlant anghenus, ac er gogoniant i ti.

8. **Stori Irène** sy' gennyn ni nesaf, o Togo, gwlad fach yng Ngorllewin Affrica. Cristnogaeth ydy'r prif grefydd yn y wlad, yn cael ei dilyn yn agos gan y crefyddau traddodiadol. Lomé ydy'r brifddinas, ac yn Lomé mae Irène yn byw.

Stori Irène:

Roeddwn i'n briod, ac yn fam i dri o blant. Roedd gen i waith, ac roeddwn i'n Drysorydd yn yr eglwys. Doedd fy ngŵr ddim yn credu fel fi, ac roedd fy ymroddiad i Dduw yn ei boeni fe, felly mi wnaeth o fy ngyrru i ffwrdd gyda'r plant. Roedd hynny'n warth yn ôl fy nheulu, ac mi wnaeth hyd yn oed fy mam droi ei chefn arnaf. Roedd hi'n amser heriol iawn, ac roeddwn i'n wynebu anawsterau yn emosiynol, yn gymdeithasol, ac yn ariannol. Aeth y plant yn ôl i fyw gyda'u tad, ond mi ildiais i i Iesu, gan fyw yn weddigar, a theimlo'n fwy diogel ym mhresenoldeb yr Arglwydd. Dechreuodd yr Arglwydd adfer fy mywyd.

Roedd un broblem fawr arall gennyf, fy iechyd. Hyd yn oed ar ôl i mi gyrraedd amser newid bywyd, y menopos, roeddwn i'n dal i waedu. Cefais i amryw o brofion heb fod achos yn cael ei ganfod. Roeddwn i'n colli nerth, a dechreuais i fynd dan y don. Cofiais i am y stori yn efengyl Marc (5:25-29) am Iesu yn cwrdd â'r wraig ag arni waedlif ers deuddeng mlynedd.

Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd 1 Tachwedd 2021 – Byw yn ddewr

Ar ôl un apwyntiad meddygol, penderfynais i fynd i'r safle lle roedd ein heglwys ni yn codi adeilad newydd – doeddwn i ddim wedi bod yno ers tro, oherwydd fy salwch. Roeddwn i mor falch i weld y gwaith oedd yn mynd ymlaen, penderfynais i y byddwn i'n dod â bwyd i'r holl weithwyr y bore wedyn, er nad oedd gen i'r modd, yn ariannol, nac yn gorfforol. Ond yn ôl fy addewid, fe gafodd y gweithwyr eu bwyd y diwrnod wedyn! A'r prynhawn hwnnw, pan es i adre, sylwais i fod y gwaedu wedi peidio. Es i i'r ysbyty ac roedd y doctor yn rhyfeddu, doedd dim ôl o'r anhwylder fu'n gymaint o boen i mi am gyhyd.

Mae Duw wedi fy mendithio mor helaeth! Mae wedi fy iachau heb gymorth doctor, y fath meddyg da! Priodais eto, â gwr o Gristion. Daeth y plant yn ôl, a derbyn Iesu Grist yn Arglwydd personol, a rhai o fy nheulu fi hefyd. Er bod pobl yn dweud fod rhai pethau yn amhosibl, does dim byd yn amhosibl gyda Duw. Mae e'n Dad rhyfeddol!

Mae'r Beibl yn dweud fod yr Arglwydd yn rhoi i'r rhai sy'n ymddiried ynddo "goron yn lle lludw, olew llawenydd yn lle galar, mantell moliant yn lle digalondid." (Eseia 61:3) Gogoniant i Dduw!

9. Rydyn ni wedi clywed nawr storïau am ddwy wraig yn cael dewrder i fwrw ymlaen, Sonia er gwaethaf ei chefnidir anodd, er gwaethaf ei bod hi'n gwbl anghenus, yn cael nerth a dewrder i dyfu i mewn i'r bywyd newydd sydd yng Nghrist. Ac Irène yn mentro o amgylchiadau teuluol anodd, a chyflwr iechyd truenus, i wasanaethu'r rhai oedd yn gwasanaethu'r Arglwydd, a'r dewrder yna yn ei chodi o'r newydd, i iechyd, i briodi, i groesawu ei phlant ddod yn ôl, i gymodi â'i theulu estynedig. Mae angen dewrder i newid i dyfu ac i ffynnu, ac yn y ffyniant hwnnw bydd y byd yn gweld Duw.

Rydym ni'n ymwybodol hefyd am y dewrder mae ei angen er mwyn cymryd rôl newydd o fewn ein cylchoedd ni, ac am y nerth sydd i'w chael yn Nuw i'n helpu. Stori felly sy gan Joyce Porto o Brasil, a gafodd ei magu o fewn yr eglwys Bedyddwyr leol, ac a gafodd wahoddiad i gydlynu gwaith plant y Bedyddwyr yn y ddinas. Er bod ganddi amheuan lu am ei gallu i gyflawni'r gwaith, cafodd ei hannog gan ei chwiorydd yn yr eglwys, a'i hatgoffa y byddai Duw yn ei chyfarwyddo ac yn ei pharatoi at y gwaith. A felly a fu, a bu'r gwaith plant lleol yn gam cyntaf i Joyce fentro i brosiectau mewn cenhadaeth gyda phlant ar draws y byd.

Gobeithio bod y storïau hyn yn helpu inni gael agor ein llygaid i bosibiliadau sy'n deillio o fod yn ddewr drwy gymorth Duw.

Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd 1 Tachwedd 2021 – Byw yn ddewr

Llywydd: Nawr y prosiectau: Bob blwyddyn fe fydd prosiectau gwaith Chwiorydd yn cael eu dewis i dderbyn cyfran o'r casgliad ar y Dydd Gweddi. Mae pedwar prosiect i gyd eleni a chawn ni glywed am y pedwar. Dwi ddim yn meddwl y bydden ni byth wedi meddwl am yr un cyntaf hwn!

10a Prosiect ffermio brogaod yng ngwlad Thai. Mae'r fferm brogaod hon yn magu ac yn gwerthu brogaod i'w bwyta gan bobl, ac maen nhw'n gobeithio cefnogi mwy o blant amddifaid a phlant difreintiedig eraill, a gwagedd gweddwon. Mae'r plant a'r gwagedd yn dysgu sgiliau ar gyfer ffermio brogaod, yn cael eu hannog i wneud y gorau o'r cyfleoedd addysgol sy'n cael eu cynnig, ac yn adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer ffydd yn Iesu Grist.

10b Prosiect goleuni i'r tywyllwch, yn ynysoedd y Philipinau: mae hwn yn brosiect sy'n ymwneud â lles seicolegol gwagedd a phlant. Mae gwagedd dan bwysau oherwydd ei bod hi mor anodd gael dau ben llinyn ynghyd, gyda chyn lleied o waith ar gael. Mae plant dan bwysau oherwydd bod addysg ar-lein, a diffyg gweithgareddau y tu allan i'r cartref. Bwriad y prosiect yw darparu adnoddau ar-lein fydd yn helpu darganfod ac enwi amgylchiadau sy'n effeithio ar iechyd meddwl, a hefyd helpu lleddfu'r problemau sydd yn codi. Bydd rhan o'r prosiect yn cefnogi dechrau busnesau bach a phrosiectau gwneud arian i gynyddu incwm teuluoedd.

10c Prosiect Llyfrgell yng nghanolfan y Bedyddwyr, Cameroon, Gorllewin Affrica: does dim llyfrgelloedd cyhoeddus mwyach a thrwy agor llyfrgell yn y ganolfan bydd merched y Bedyddwyr, ac eraill, yn gallu mwynhau darllen a chael gwybod am bethau sy'n digwydd yn y byd. Mae gobaith hefyd y bydd y llyfrgell yn cael ei defnyddio gan bobl yr ardal yn gyffredinol, y bydd yn fodd felly i drawsffurfio bywydau rhai drwy addysg, ac y bydd mwy eto yn clywed ac yn ymateb i'r efengyl.

10ch Prosiect Clwb Gwnïo Vanuatu: yn sgil y difrod a gaed yn ystod Seiclon (cyclone) Harold, ac effeithiau economaidd y pandemig, mae Chwiorydd Bedyddwyr Vanuatu am ddechrau Clwb Gwnïo i helpu mamau ifainc sy'n cael trafferthion ariannol. Bydd y Clwb yn ceisio eu helpu i wneud dillad ar gyfer eu teuluoedd, ac i greu cynnyrch i'w werthu, gan sicrhau incwm mae ei wir angen arnyn nhw. Bydd y Clwb hefyd yn cynnwys cymdeithasu dros ben paned a phryd o fwyd ysgafn, trafod yr efengyl, a gwersi am drefnu cyllid y teulu.

Llywydd: pwy a wŷyr, efallai bydd clywed am y prosiectau yma yn rhoi syniad am ryw beth allai fod o fudd yn lleol gyda ni, er dwi ddim yn siŵr am y fferm brogaod! At y prosiectau hyn bydd cyfran o'n hoffrwm ni nawr yn mynd. Ac felly fe dderbyniwn ni'r offrwm.

[Gan na fydd casgliad yn cael ei gynnal yn ystod yr oedfa, gofynnir i chi os gwelwch yn dda gymryd munud i neilltuo nawr eich casgliad ar y fainc o'ch blaen, ac yna ar ddiwedd yr oedfa, i'w godi a mynd ag ef allan i'w roi ar y plât ar y ffordd allan.] / [Casgliad]

Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd 1 Tachwedd 2021 – Byw yn ddewr

Gweddi dros y rhoddion: Ein Tad, bendithia ein rhoddion, a'n gwasanaeth, a bendithia hefyd y rhai fydd yn derbyn ac yn defnyddio'r offrwm; cyflwynwn hwy i'th sylw tyner di. Llwydda'r holl ymdrechion, er mwyn dy enw. Amen

11 Emyn 3: Cff 805 Rho imi nerth i wneud fy rhan

Llywydd: Drwy inni wrando ar astudiaeth feiblaidd, a chlywed tystiolaeth Sonia ac Irene, a Joyce, a chlywed hefyd am y prosiectau, rydyn ni'n dod i gyd-gerdded â chwiorydd ar draws y byd. A daethom ynghyd i weddio; ymunwn nawr i weddio gyda chwiorydd y cyfandiroedd. Mae'r pwyntiau gweddi yn codi o brofiadau'r chwiorydd yn eu rhanbarthau, ond mae llawer o'r pynciau yn rhai y gallwn ni i gyd weld eu bod yn berthnasol gyda ni yng Nghymru hefyd.

Ennyd i sylw a meddwl.

12a Gweddiwn:

Ein Tad, Molwn di; diolchwn i ti am bob daioni a ddaw gennyt ti, a heddiw diolchwn i ti yn arbennig am y fraint o gael dod ger dy fron mewn gweddi; gofynnwn i ti faddau i ni am bob cyfle a gollwn i fod yn ddewr yn dy wasanaeth. Yng nghwmni ein chwiorydd ar draws y byd, gweddiwn dros ei ranbarthau, gan ddechrau yn Asia.

12b Gweddi Asia

Ein Tad, gweddiwn am gael trefn i ymateb i'r heriau economaidd a gwleidyddol yn sgil y pandemig; ac am fwy o gyfle i weithio, ac am gydweithio rhyngwladol. Gweddiwn am brofi'n llawn y gobaith sydd yn Iesu.

Gweddiwn am gael sefydlogrwydd ariannol, a'r modd i ddal ati gyda gwaith da a gweinidogaethau da. Gweddiwn am gael arweinwyr newydd, yn enwedig o blith gwragedd iau. Rhown fawl i Dduw am y gymdeithas agosach a gafwyd yn ein plith, er gwaetha'r pandemig, yn sgil cyfarfodydd ar-lein, a defnydd helaethach o'r cyfryngau cymdeithasol i weinidogaethu.

Yn wyneb ansefydlogrwydd economaidd a gwleidyddol, a gwrthdaro ethnig, yng ngwlad Thai, Indonesia, Hong Kong, Myanmar a Pacistan, gweddiwn y byddi'n atal tywallt gwaed, gan ddangos dy drugaredd, drwy newid calonnau i fod yn drugarog er gwaetha'r cythrudd, a bygythiad.

Gweddiwn am amddiffyniad yn erbyn trais yn y cartref. Gweddiwn am gyfiawnder cymdeithasol i wragedd a phlant yng ngwledydd Asia. Gweddiwn yn erbyn gwahaniaethu, cymryd mantais, cam-drin, a gweddiwn y bydd yr awdurdodau yn agor eu clustiau i leisiau a cheisiadau.

Molwn di am i ti am alluogi'r pwyllgor i godi arian ar gyfer prosiect gwragedd yn gymorth i wragedd. Bendithied ef yr unigolion parod a hael sy'n rhannu yn y gwaith hwn gyda'r Undeb.

12c Gweddi Gogledd America

Dydd Gweddï Chwïorydd Bedyddwyr y Byd 1 Tachwedd 2021 – Byw yn ddewr

Gweddïwn dros y cymdeithasau sy'n ymdrechu i bontio'r gagendor rhwng anghenion gwagedd hÿn a rhai iau, wrth geisio anrhydeddu'r ffyddloniaid, ac ar yr un pryd yn mentro i dir newydd.

Rhown fawl am y rhaglen Interniaeth Rithiol, sy'n rhoi cyfleoedd i wragedd Bedyddwyr iau gysgodi aelodau tîm gweinyddol Gwagedd Bedyddwyr Gogledd America, gan ennill sgiliau strategol mewn swydd ac mewn arwain sy'n werthfawr iawn.

Gweddïwn dros raglen Tu fewn tu fas. Mae'r gwaith hwn yn ceisio hyrwyddo adferiad ar gyfer pobl ifainc a niweidiwyd yn sgil eu masnachu ar gyfer rhyw, gan eu rhoi mewn amgylchedd cartrefol, teuluol a diogel. Gweddïwn dros y gwirfoddolwyr gyda'r rhaglen sy wedi llwyr ymlâdd, a gweddïwn hefyd am weithwyr newydd at y gwaith.

Gweddïwn dros iachâd a chymod ar gyfer gwagedd brodorol a'u calonnau ar weinidogaethu, ond sy mewn angen am fentora a hyfforddiant mewn arwain, i'w cefnogi yn y gwaith maen nhw'n ei wneud yn eu cymunedau.

Gweddïwn dros y weinidogaeth weddi ar-lein wythnosol. Gweddïwn y bydd mwy o wragedd yn ymwneud â hyn, ac y bydd gwagedd Bedyddwyr Gogledd America yn tyfu yn eu hymroad i weddi. Molwn di O Dduw am y gyfres o seminarau ar-lein newydd ar Alluogi a Rhwydweithio, mae llawer o wragedd Bedyddwyr yn ei dilyn, ac sy'n eu helpu i wella ar eu sgiliau arweinyddiaeth, ac yn eu paratoi ar gyfer cynnydd ym meysydd eu gweinidogaeth.

12ch Gweddï gwagedd Bedyddwyr y Môr Tawel

Gweddïwn dros waith gwagedd Bedyddwyr y Môr Tawel, wrth iddyn nhw wynebu'r heriau mwyaf sylweddol, sef y rhwystrau ieithyddol, a diffygion cysylltiad y we mewn rhai o'r gwledydd. Rhown fawl i ti O Dduw fod Chwïorydd y Môr Tawel mor ymroddedig i'w gweinidogaeth, a'u bod yn frwdfrydig dros wasanaethu, gan deithio pellteroedd dros diroedd anodd er mwyn cyd-gyfarfod. Gweddïwn dros ddatblygiad y prosiect Trais yn y Cartref, sy'n ceisio darparu adnoddau ar gyfer gweinidogion Bedyddwyr yn Awstralia. Amcan y prosiect yw eu helpu i weinidogaethu i rai sy'n cael eu hunain yn gaeth i sefyllfa beryglus a thrasig trais yn y cartref. Gweddïwn y byddan nhw'n gallu helpu gwagedd sy'n byw gyda thrais ar ba bynnag cyfandir maen nhw'n byw.

Gweddïwn dros y gwagedd di-rif sydd wedi colli swyddi yn sgil trai mewn twristiaeth yn ystod Covid, gan gofio bod twristiaeth yn un o'r prif ffynonellau gwaith yn y Môr Tawel.

Gweddïwn y bydd llywyddion gwladol rhanbarth y Môr Tawel yn gallu cyd-gyfarfod ar gyfer eu seminar ar Deuluoedd Iach a Diogel. A gweddïwn am ail-gynnau prosiect Cytiau Esgor yn Papua Gini Newydd.

Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd 1 Tachwedd 2021 – Byw yn ddewr

12d Gweddi Affrica

Ein Tad, gweddiwn dros dy waith di ymhlith gwagedd Bedyddwyr Affrica. Daeth Covid ag anawsterau ymarferol lu, tloidi ar gynnydd wrth i waith ddod i ben. Gweddiwn dros wragedd ar draws Affrica sy wedi colli swyddi, a dros eu teuluoedd mewn tloidi. Agora galonnau, agora ddrysau a lluosar ddarpariaeth yn y cartrefi hynny, yn yr eglwysi ac yn y cymunedau. Gweddiwn y daw hi'n well arnyn nhw i gyd.

Gweddiwn dros y chwaer Barbara Singermann, sy wedi dy wasanaethu di yn Affrica am flynyddoedd lawer fel cenhades gyda'r Bedyddwyr. Rhown ddiolch i ti am ei chadw hi a'i gŵr yn ddiogel. Rhown fawl i ti am ei defnyddio yn dy law yn ystod y cyfnod clo, i ddarparu llyfrynnau misol ar gyfer gweddio ac addoli gartre.

Yn Ne Affrica, mae Undeb Gwagedd Bedyddwyr Affrica yn cefnogi prosiect i roi cysgod a nawdd i wragedd a gam-driniwyd, a'u plant. Gweddiwn y bydd gwŷr yn caru eu gwagedd a thadau yn magu eu plant yn ôl gair Duw. Gweddiwn y bydd arweinwyr eglwysig yn gadarn yn erbyn cam-driniaeth. Gweddiwn am heddwch a sefydlogrwydd drwy'r cyfandir, ac undod yn ein teuluoedd a'n cymunedau. Gweddiwn y byddwn ni oll yn maddau i'n gilydd, yn cryfhau ein perthynas â'n gilydd, a cheisio'r Arglwydd gyda'n gilydd.

Rhown fawl i Dduw am Gomisiwn Cymorth Cynghrair Bedyddwyr y Byd, fydd yn cynorthwyo pobl fregus, a lleddfu dioddefiannau yn Ne Affrica, yn ateb i weddiau y llynedd.

12dd Gweddi y Caribî

Gweddiwn y bydd grwpiau lleol yn ymuno â'r mudiad yn ganolog ar eu hynnysoedd. Rhown ddiolch i Dduw am anfon gwagedd diwyd sy'n ymateb i'r alwad i weinidogaethu.

Gweddiwn y bydd Prosiect Garddio a Hyfforddi Adran y Gwagedd o Undeb Bedyddwyr Trinidad a Tobago yn parhau i gynnig gwaith, bwyd a hyfforddiant i'r rhai sy mewn angen. Gweddiwn y bydd Cymdeithas Gwagedd Bedyddwyr Grenada yn parhau i ffynnu yn eu prosiect mentrus o ddarparu gwaith a hyfforddiant i wragedd.

Gweddiwn dros hyfforddiant a datblygiad arweinwyr newydd, angen mwyaf yr ynysoedd sy'n rhan o'r Undeb Gwagedd Bedyddwyr y Caribî.

Gweddiwn hefyd dros hyfforddiant a datblygiad y gwagedd sydd ar hyn o bryd yn arweinwyr ar yr ynysoedd. Gweddiwn y bydd cyfathrebu rhwng yr ynysoedd yn gwella.

Rhown fawl i Dduw am anfon gwagedd iau sy'n ymgynnig ar gyfer gweinidogaeth.

12e Gweddi Ewrop

Gweddiwn am undod, a chysylltiad, a chymdeithas, ymhlith gwagedd Bedyddwyr Ewrop er gwaethaf amgylchiadau fel Brexit sy'n tynnu yn erbyn hynny.

Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd 1 Tachwedd 2021 – Byw yn ddewr

Gweddiwn y bydd Cristnogion ein rhanbarth yn sefyll yn gadarn mewn ffydd, a hoelio'u llygaid ar Iesu yn y dyddiau anodd hyn. Gweddiwn am galonnau yn llawn o'r Ysbryd Glân, a chariad dwfn am yr Arglwydd Iesu, er mwyn dwyn ei fuddugoliaeth ef, a'i anogaeth, i bob man maen nhw'n byw.

O Dduw, os gweli di fod yn dda, agora lygaid pobl fel eu bod yn troi o'r tywyllwch i'r goleuni, o rym materoliaeth, hunanoldeb, hiliaeth at Dduw; a boed iddyn nhw dderbyn maddeuant pechodau a chael eu lle ymhlith y rhai a sancteiddir drwy ffydd yn Iesu.

Gweddiwn dros ein harweinwyr – mewn llywodraeth, mewn cynulleidfaoedd, mewn gwaith a mwy. Boed i'w penderfyniadau fod yn Gristnogol ac yn ddoeth, yn unol â'th feddwl di, fel na chollan nhw dy ddaioni, ond derbyn dy fendithion.

Dad nefol, bendithia'r rhai sy wedi dioddef canlyniadau'r pandemig mewn cymaint o ffyrdd: galar, mewn trais yn y cartref, wrth ymbellhau yn gymdeithasol, drwy golli gwaith, a chartref, drwy golli ysgol, drwy astudio gartref, gweithio gartre, drwy ohirio triniaethau mae eu hangen o hyd.

Gweddiwn hefyd dros y rhai sy'n byw mewn gwledydd ble mae ansefydlogrwydd cymdeithasol, chwalfa economaidd, erledigaeth, rhyfel a thrychinebau hinsawdd.

12f Gweddi America Ladin

Gweddiwn dros brosiect 'Trysorau yn y Nef' mae gwagedd rhanbarth America Ladin yn dyheu amdano, i gefnogi cenhades o America Ladin i weithio gyda gwagedd yn India, ar ddechrau'r broses hir o sefydlu'r gwaith.

Gweddiwn dros ein nod pum mlynedd, sef yr effaith y dymunwn ei chael ar genedlaethau'r dyfodol.

Gweddiwn dros bobl frodorol, a thros y dylanwad fydd gan yr Efengyl yn eu diwylliannau.

Gweddiwn dros y Pepes, yr ysgolion meithrin ar gyfer plant mewn ardaloedd tlawd.

Gweddiwn hefyd dros yr anghenion mawr hyn:

Rhoi terfyn ar drais yn y cartref

Sicrhau cyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ifainc

Dyfnhau perthynas pobl y rhanbarth â Duw

Gweddiwn y bydd modd sefydlu llinell ffôn rhad ac am ddim ar gyfer pob gwlad yn America Ladin, i roi cymorth i wragedd sy'n wynebu beichiogrwydd annisgwyl, i wella ar y sefyllfa bresennol lle mae'r galwadau yn dod i mewn i ganolfan ranbarthol, a'u hanfon ymlaen i'r is-lywyddion yn eu gwledydd. Diolchwn am lywydd y rhanbarth, y chwaer Liliana Fernandez de Farina, ac am ei thystiolaeth fod ein gweddiâu oll yn cael eu hateb gan Dduw ymhlith arweinwyr y rhanbarth, yn rhodd o'i law ef iddi hi. Diolchwn fod y cyfarfodydd gweddi ar-lein ar ddydd Mawrth, a'r cynadleddau hanner awr wythnosol ar ddydd Gwener yn gymaint o fendith.

Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd 1 Tachwedd 2021 – Byw yn ddewr

12ff Gweddiwn hefyd dros waith Cynghrair Bedyddwyr y Byd

O Dad, gweddiwn y bydd chwiorydd ein heglwysi yn ffynnu, ac yn pwyntio atat ti yn eu bywydau. Gweddiwn y bydd gwagedd yn parhau i gael eu hysbrydoli a chael anogaeth o ganlyniad i weithgareddau a hyrwyddir gan y Cynghrair.

Gweddiwn dros Gyfarwyddwr Gweithredol newydd Gwagedd Cynghrair Bedyddwyr y Byd wrth iddi ymaddasu i'w gwaith newydd.

Gweddiwn am dy ddoethineb di, ar gyfer arweinwyr Undebau rhanbarthol Chwiorydd Bedyddwyr, ac ar gyfer Karen Wilson, y llywydd, a'r trysorydd ac ysgrifennydd Sherrie Cherdak.

Gweddiwn am barhad dy arweiniad ar gyfer Ysgrifennydd Cyffredinol Cynghrair Bedyddwyr y Byd, sef Elijah Brown.

A gweddiwn hefyd dros y gweithdai ar-lein newydd sy'n ail-ddechrau er mwyn arfogi gwagedd Bedyddwyr dros y byd i gyd.

Llywydd: O Dad clyw ein gweddi, am ein bod yn gweddiio yn enw ac yn haeddiant Iesu Grist ein Harglwydd, a'n dysgodd i weddiio gyda'n gilydd: Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd...

Llywydd: Wrth inni dynnu at derfyn ein hoedfa nawr, fe ganwn ein hemyn olaf, ac ar ôl yr emyn, fe gyhoeddwn ni'r fendith gyda'n gilydd.

13 Emyn 4 Cff 776 A fynno ddewrder gwir

Pawb (Bendith): Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw a chymdeithas yr Ysbryd Glân a fyddo gyda ni oll, o'r awr hon hyd yn oes oesoedd / byth. Amen (defnyddio'r geiriau a arferir yn lleol).